



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Alltwen
Alltwen Hill
Alltwen
Pontardawe
Abertawe
SA8 3AB**

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2013

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/05/2013

Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Alltwn mewn pentref bach yng Nghwm Tawe gerllaw tref Pontardawe. Mae'r ysgol yn denu disgyblion o'r ardal yn eang, ac mae ychydig o ddisgyblion ar y bws o Drebanws. Daw disgyblion o gefndiroedd amrywiol, ac ar y cyfan nid ydynt o gefndiroedd dan anfantais economaidd na mantais economaidd. Mae hawl gan ryw 25% o ddisgyblion i gael prydau ysgol am ddim, ac mae hynny uwchlaw cyfartaledd Cymru, sef 21%. Mae'r ysgol yn nodi bod angen cymorth ar gyfer anghenion addysgol arbennig ar ryw 22% o ddisgyblion. Mae hyn ychydig uwchlaw cyfartaledd Cymru ar gyfer ysgolion cynradd (20%). Mae datganiad o angen addysgol arbennig gan ychydig iawn o ddisgyblion.

Mae 260 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed ar y gofrestr. Mae 51 o ddisgyblion yn mynychu'r feithrinfa naill ai yn y bore neu'r prynhawn, ac addysgir gweddill y disgyblion mewn naw o ddosbarthiadau gallu cymysg. Mae dau ddosbarth oedrannau cymysg, un sy'n cyfuno Blynnyddoedd 4 a 5 a'r llall yn cyfuno Blynnyddoedd 5 a 6.

Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir Saesneg fel y brif iaith, ac nid oes unrhyw ddisgyblion yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae traddodiad diwylliannol Cymreig cryf yn yr ardal a daw ychydig o ddisgyblion o gartrefi lle mae eu tadcu-od a mamgu-od yn siarad Cymraeg. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn dod o gefndiroedd ethnig dwyieithog eraill, ac mae 8% o deuluoedd eu hunain yn dweud eu bod o gefndir ar wahân i wyn Prydeinig.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Alltwn yn 2012-2013 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,026 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Castell-nedd Port Talbot yw £7,410 a'r lleiafswm yw £2,806. Mae Ysgol Gynradd Alltwn yn y 61ain safle o'r 68 o ysgolion cynradd yng Nghastell-nedd Port Talbot o safbwynt ei chyllidieb ysgol fesul disgybl.

Ymgwymerodd y pennaeth dros dro â'i swydd yn Chwefror 2013, ac mae'r pennaeth parhaol wedi'i secondio.

Ym Mawrth 2007 yr arolygwyd yr ysgol ddiwethaf.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Digonol
Rhagolygon gwella'r ysgol	Anfoddhaol

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol, oherwydd:

- erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae llawer o ddisgyblion yn cyflawni'n dda;
- mae'r disgyblion yn hapus, yn cyfranogi'n dda mewn gwersi ac yn teimlo'n ddiogel;
- yng nghyfnod allweddol 2, mae ansawdd yr addysgu'n dda yn gyffredinol; ac
- mae'r ysgol yn darparu lefelau gofal a chymorth da i ddisgyblion.

Er hynny:

- dros y pedair blynedd diwethaf, nid yw cyrhaeddiad disgyblion mewn asesiadau diwedd cyfnod allweddol yn cymharu'n dda â chyrhaeddiad ysgolion tebyg eraill;
- bernir mai digonol yw safonau yn y Cyfnod Sylfaen;
- mae presenoldeb disgyblion yn rhy isel; ac
- mae gweithdrefnau asesu yn anghyson.

Rhagolygon gwella

Bernir bod rhagolygon gwella'r ysgol yn annigonol, oherwydd:

- nid oes hanes o lwyddo gan yr ysgol o ran cyflawni gwelliant parhaol dros gyfnod;
- nid yw'r prosesau hunanarfarnu yn drwyadl, nid ydynt yn rhoi ystyriaeth ddigon da i dystiolaeth uniongyrchol nac yn cynnwys y staff a rhanddeiliaid eraill yn briodol;
- nid yw'r ffocws cadarn yn ddiweddar iawn ar wella'r ysgol ac arweinyddiaeth wasgaredig wedi cael amser eto i sefydlu cyfeiriad strategol i'r ysgol; ac
- nid oes system effeithiol ar waith i fonitro a rheoli perfformiad athrawon.

Argymhellion

- A1 Gwella safonau disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen, yn enwedig mewn darllen, ysgrifennu a rhifedd
- A2 Sicrhau bod disgyblion mwy galluog yn cyflawni'r lefelau uwch yn yr asesiadau diwedd cyfnod a'r asesiadau diwedd cyfnod allweddol
- A3 Gwella presenoldeb disgyblion
- A4 Datblygu arweinyddiaeth ar bob lefel
- A5 Cynnwys y llywodraethwyr yn llawnach fel y gallant gefnogi a herio'r ysgol yn gadarn a'i dwyn i gyfrif am y safonau a gyflawnir
- A6 Gwella gweithdrefnau hunanarfarnu trwy gynnwys pob aelod o'r staff a defnyddio tystiolaeth uniongyrchol, gadarn
- A7 Sefydlu gweithdrefnau rheoli perfformiad effeithiol

Beth sy'n digwydd nesaf?

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol ryw 12 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Digonol

Safonau: Digonol

At ei gilydd, mae safonau yn y Cyfnod Sylfaen yn ddigonol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau siarad a gwrando, a'u medrau cymdeithasol yn briodol ac mae llawer ohonynt yn cyfranogi'n addas wrth weithio gydag oedolion. Mae ychydig o ddisgyblion sy'n fwy galluog yn darllen yn dda, ond yn gyffredinol mae cynnydd mewn darllen ac ysgrifennu yn rhy araf, ac nid yw lleiafrif sylweddol o ddisgyblion yn cyrraedd y safonau gofynnol ar gyfer eu hoed. Nid oes gafael ddigon cadarn gan y disgyblion ar fedrau ffoneg i'w helpu i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Yn eu hysgrifennu, dim ond brawddegau byr iawn y mae mwyafrif o ddisgyblion yn eu hysgrifennu, ac nid oes digon yn gallu ysgrifennu darnau estynedig gan ddefnyddio atalnodi sylfaenol priodol. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu'u medrau rhifedd ond nid ydynt yn eu cymhwyso'n ddigon da ar draws yr holl feysydd dysgu.

Yn gyffredinol, mae safonau'n dda erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da wrth iddynt symud trwy gyfnod allweddol 2, ac mae'r safon bresennol yn eu llyfrau yn dda. Mewn sesiynau'n cael eu harwain gan yr athro, mae bron pob un o'r disgyblion yn ymateb yn wybodus, gan wrando a meddwl am eu cyfraniadau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda fel darllenwyr, ac mae'r disgyblion hŷn yn darllen yn rhugl ac yn gywir. Mae llawer o ddisgyblion yn haen uwch cyfnod allweddol 2 yn ymateb yn dda mewn trafodaethau ac yn cydweithredu'n effeithiol mewn parau a grwpiau ac wrth weithio'n annibynnol. Mae disgyblion mwy galluog yn defnyddio geirfa eang yn hyderus. Mae medrau ysgrifennu da gan lawer o ddisgyblion. Maent yn drafftio ac yn addasu'u hysgrifennu yn dda ac yn defnyddio ffurfiau ysgrifennu amrywiol yn effeithiol, er enghraifft wrth gyfleu gwybodaeth neu ysgrifennu'n greadigol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae cyflwyniad a llawysgrifen dda gan y mwyafrif ohonynt. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn dda ac yn mesur, cofnodi ac yn cyfrifo at ddibenion gwahanol gan ddefnyddio graffiau neu dablau i gyflwyno'u canfyddiadau.

Gwna'r disgyblion gynnydd priodol wrth ddatblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), ac mae safonau'n dda yn gyffredinol. Daw llawer ohonynt yn gyfarwydd â defnyddio ystod o offer yn y Cyfnod Sylfaen, ac maent yn atgyfnerthu'u medrau yn dda yng nghyfnod allweddol 2 lle mae llawer yn defnyddio TGCh yn bwrpasol mewn amrywiaeth dda o bynciau.

Mae safonau mewn Cymraeg yn datblygu'n dda wrth i ddisgyblion symud ymlaen drwy'r ysgol, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni safonau llofaedd da erbyn Blwyddyn 6. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn gwrando ac yn ymateb yn briodol i'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth, ac yn adeiladu eu geirfa a'u dealltwriaeth yn araf. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg i lefel briodol. Mae llawer ohonynt yn ysgrifennu gan ddefnyddio cystrawennau gwahanol a diddorol i gofnodi mathau gwahanol o sgriptiau Cymraeg.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyfrannu'n dda yn y dosbarth a gweithiant yn llwyddiannus gyda'r cynorthwywyr addysgu sy'n eu cefnogi. Gwnânt gynydd da o'u mesur yn erbyn y targedau yn eu cynlluniau dysgu unigol. Mae disgyblion mwy galluog yn haen uwch cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd da, a chynnydd da iawn weithiau. Mae tystiolaeth o'r arolygiad yn awgrymu bod nifer sylweddol yn fwy o ddisgyblion yn gweithio tuag at y lefel uwch (lefel 5) mewn asesiadau diwedd cyfnod allweddol nag mewn blynyddoedd blaenorol.

Yn 2012, o gymharu â chanlyniadau disgyblion mewn ysgolion â chyfran debyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, mae canlyniadau disgyblion ym mhob maes dysgu'r Cyfnod Sylfaen yn y 50% is, ond nid yn y 25% isaf. Mae canlyniadau disgyblion uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig mewn datblygiad mathemategol yn y 50% is, ond nid yn y 25% isaf. Mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu ac mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol, mae perfformiad disgyblion ar y lefel uwch yn y 50% uwch, ond nid yn y 25% uchaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf, o gymharu â pherfformiad ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, roedd yr ysgol yn y 50% uwch ond nid yn y 25% uchaf mewn perthynas â'r dangosydd pwnc craidd. Mae cyrhaeddiad ar lefel uwch na'r lefel ddisgwyliedig (lefel 5) yn y pedair blynedd diwethaf yn isel o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg ym mhob un o'r pynciau craidd.

Lles: Da

Mae gan bron pob un o'r disgyblion ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta'n iach a gwneud ymarfer corff. Maent yn ymwybodol, er enghraifft, o negeseuon iechyd pwysig a gaiff eu hyrwyddo gan weithgareddau 'Healthy Heroes' yr ysgol dan arweiniad disgyblion cyfnod allweddol 2. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn derbyn cyfrifoldeb yn barod ac maent yn cyfrannu'n frwdfrydig yng nghyngor yr ysgol neu yn y dosbarth i gyfrannu'u barnau a thrafod sut y dylent ymddwyn a gweithio gyda'i gilydd. Mae ymddygiad da o amgylch yr ysgol ac amser egwyl, ac mae'r disgyblion yn gyfeillgar ac yn gefnogol i'w gilydd ac yn dangos parch at oedolion. At ei gilydd, mae ymddygiad da yn y gwersi. Mae amgylchedd gweithio cadarn ac mae disgyblion yn llawn cymhelliant i ddysgu ac yn dangos diddordeb yn y gweithgareddau a gyflwynir.

Dywed bron pob un o'r disgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Wrth drafod, adrodda'r rhan fwyaf ohonynt eu bod yn hyderus bod yr ysgol yn delio'n effeithiol ag unrhyw faterion sy'n digwydd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon. Er hynny mae presenoldeb yn is na'r cyfartaledd lleol a chenedlaethol, ac mae wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o ysgolion tebyg dros y ddwy flynedd diwethaf.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Digonol

Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r profiadau dysgu cynlluniedig yn bodloni'r gofynion, yn nodi amrywiaeth ysgogol o weithgareddau ac yn diwallu anghenion llawer o ddisgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r staff yn nodi cyfleoedd priodol i ddatblygu medrau rhifedd, TGCh a medrau siarad a gwranddo disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio i hyrwyddo medrau darllen ac ysgrifennu cynnar disgyblion yn gyson, ac o ganlyniad, nid yw disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud digon o gynnydd. Yn gyffredinol, mae staff yn cynllunio'n dda i herio'r disgyblion mwy galluog ac i fodloni anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Cynigia'r ysgol gyfleoedd strwythuredig priodol ar gyfer datblygu'r Gymraeg. Mae staff yn ymgorffori'r cyfleoedd hyn yn dda ar draws y cwricwlwm, ac yn ennyn diddordeb pob disgybl i ddefnyddio'r iaith. Ceir cefnogaeth dda i'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig ehangach, er enghraifft, drwy archwilio artistiaid Cymru ac astudio personoliaethau lleol. Mae'r dull lleol cytûn ar gyfer addysg grefyddol yn gadarn yn ei le. Mae ymweliadau addysgol i leoliadau perthnasol fel Amgueddfa Sain Ffagan, ac ymweliadau gan glerigwyr lleol neu'r heddlu, yn cyfoethogi darpariaeth yr ysgol.

Mae addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang wedi'i datblygu'n dda. Yn y dosbarth a thrwy'r cyngor eco gweithgar, caiff y disgyblion gyfleoedd rheolaidd i fyfrio ynghylch sut gall eu gweithredoedd effeithio ar yr amgylchedd. Mae cysylltiadau rhyngwladol buddiol, er enghraifft gydag ysgolion yn Karachi, yn galluogi disgyblion i gael dealltwriaeth dda iawn ynglŷn â'u lle yn y byd ehangach.

Addysgu: Digonol

Lle mae'r addysgu yn dda, mae athrawon yn strwythuro sesiynau'n effeithiol ac yn rheoli staff cymorth yn dda. Caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i drafod eu dysgu ac i weithio mewn parau neu grwpiau yn ymarfer eu medrau siarad a gwranddo, a mynd i'r afael â phroblemau neu dasgau a osodir iddynt. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynnal sesiynau ar gyflymder bywiog, mae ganddynt wybodaeth bynciol dda ac maent yn cynnig modelau dysgu da i ddisgyblion.

Yn y Cyfnod Sylfaen, nid yw athrawon yn cyfeirio'r holl weithgareddau yn ddigon gofalus i sicrhau bod disgyblion yn cael y budd pennaf ac yn gwneud cynnydd. Yn rhy aml, nid yw athrawon yn defnyddio cynorthwywyr addysgu yn ddigon da i gefnogi'r ystod gynlluniedig o weithgareddau. Yn gyffredinol, yn y Cyfnod Sylfaen, nid yw athrawon yn defnyddio'r amser a'r adnoddau a nodwyd yn effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd.

At ei gilydd, mae llawer o athrawon yn esbonio amcanion dysgu yn dda ac yn helpu disgyblion deall beth sydd angen iddynt ei wneud i lwyddo. Mae llawer ohonynt yn cynnwys disgyblion yn briodol mewn gosod eu targedau eu hunain. Rhoddir adborth llafar effeithiol i ddisgyblion gan y rhan fwyaf o athrawon. Maent yn marcio gwaith ysgrifenedig disgyblion yn rheolaidd, ac mae llawer yn dweud yn glir beth sydd angen i'r disgyblion ei wneud i wella. Mewn llawer o achosion, mae'r disgyblion yn arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyd-ddisgyblion, gan nodi'n ddefnyddiol ble maent wedi llwyddo neu sut mae angen iddynt wella.

Mae'r ysgol yn casglu ystod o ddata asesu er mwyn olrhain cynnydd a nodi tangyflawniad. Yn gyffredinol, defnyddir y wybodaeth hon yn briodol gan athrawon i'w helpu i gynllunio ar gyfer unigolion a grwpiau, ond nid yw hyn yn gyson. Nid yw

systemau'r ysgol i safoni a chymedroli asesiadau o waith disgyblion wedi'u datblygu'n ddigonol. Mae ymarferiadau diweddar yn canolbwyntio ar lythrennedd a mathemateg wedi helpu staff i gynyddu eu dealltwriaeth o sut i asesu disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol. Megis dechrau cael ei ddatblygu y mae hyn, fodd bynnag, ac nid yw eto'n sicrhau bod asesiadau athrawon yn gwbl gywir.

Mae adroddiadau i rieni yn rhoi darlun clir o gryfderau eu plentyn a'r meysydd i'w datblygu. Maent yn bodloni gofynion statudol.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol

Mae'r ysgol yn mynd i'r afael ag addysg gymdeithasol, foesol ac emosiynol disgyblion yn sensitif drwy ei chwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol. Mae rhaglenni penodol ac effeithiol i ddisgyblion ag anghenion emosiynol. Caiff disgyblion gyfleoedd i ddysgu chwarae offerynnau cerdd, ac mae ystod dda o gyfleoedd allgyrsiol gan gynnwys, er enghraifft, garddio ac amrywiaeth o chwaraeon. Hyrwydda'r ysgol ymwybyddiaeth ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus yn y dosbarth ac mewn gwasanaethau ysgol.

Mae'r staff yn annog ymddygiad da yn effeithiol gan ddefnyddio canmol cadarnhaol a gwobrwyo. Dangosa'r disgyblion ddealltwriaeth dda o pam y mae'n fuddiol iddynt gadw at reolau cytûn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion a'u rhieni neu ofalwyr yn teimlo eu bod yn gallu mynd at y staff i gael cyngor ac arweiniad ynglŷn ag unrhyw bryderon.

Mae dull yr ysgol o hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o fyw'n iach yn gryfder. O ganlyniad, mae bron yr holl ddisgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o beth sydd angen iddynt ei wneud i gadw'n iach. Mae disgyblion yn rhedeg ac yn cefnogi'r siop ffrwythau yn frwdfrydig. Ceir niferoedd da yn y clwb brecwast. Mae'r ysgol yn mynd ati'n gyson i atgyfnerthu gwerthoedd byw'n iawn ar draws y cwricwlwm.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Cynigir darpariaeth dda ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mae athrawon dosbarth yn ymwybodol iawn o ddisgyblion yn eu dosbarthiadau sydd â chynlluniau addysg unigol. Mae cysylltiadau cadarn ag ystod eang o wasanaethau arbenigol, yn enwedig mewn perthynas â disgyblion sy'n agored i niwed a'r rhai ag anghenion ychwanegol. Mae'r disgyblion yn elwa o'r cyngor a'r adolygu allanol hwn.

Nid oes systemau effeithiol ar waith yn yr ysgol ar gyfer cynyddu presenoldeb.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgarg. Caiff pawb fynediad llawn i'r cwricwlwm, beth bynnag yw eu gallu, rhyw, hil neu gefndir.

Anogir pob disgybl i gyfranogi'n llawn ym mywyd yr ysgol. Mae ffocws cadarn ar adnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae pob un o'r athrawon a'r staff cymorth yn rhoi pwyslais gwerthfawr ar adeiladu hunan-barch disgyblion, cydnabod cyflawniad a chodi uchelgeisiau.

Caiff yr adeiladau eu cynnal a'u cadw'n dda, maent mewn cyflwr addurnol da ac yn briodol ar gyfer nifer y disgyblion. Mae'r ystafelloedd dosbarth wedi'u trefnu'n dda, ac mae ynddynt arddangosfeydd o ansawdd da sy'n cefnogi dysgu yn fuddiol. Mae gwaith cyfredol disgyblion yn cael ei arddangos mewn coridorau a mannau a rennir, ac fe'u defnyddir yn effeithiol ar gyfer addysg grŵp. Ceir darpariaeth awyr agored dda, a gellir mynd yn hawdd i gaeau a gardd yr ysgol ei hun. Mae mannau ar yr iard chwarae yn fuddiol o fawr ac yn cynnwys offer da, gyda theganau awyr agored ac offer dysgu eraill.

Mae adnoddau digonol i ddiwallu anghenion disgyblion, ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer TGCh yn dda.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Anfoddhaol
--	-------------------

Arweinyddiaeth: Anfoddhaol

Mae'r pennaeth dros dro yn rhoi pwyslais cadarn ar wella addysgu a dysgu. Mae wedi cynyddu rôl uwch arweinwyr ac wedi sefydlu cyfarfodydd tîm rheolaidd rhwng yr uwch arweinwyr. Mae'r rhain yn ddatblygiadau pwysig ond diweddar iawn, ac nid ydynt wedi cael amser eto i wella ansawdd y ddarpariaeth neu ddeilliannau disgyblion.

Mae arweinwyr pwnc yn gwybod beth yw eu rolau a gwnânt gyfraniadau da at yr addysgu a'r dysgu yn eu meysydd cyfrifoldeb. Mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio ar gynlluniau gwella, ac mae'r ffocws presennol ar rifedd a llythrennedd. Mae'r uwch athrawon a'r staff ymroddedig yn cefnogi'r mentrau hyn yn dda. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn dosbarthu arweinyddiaeth yn effeithiol drwy'r staff addysgu nac yn ymgorffori mentrau yn ddigon da er mwyn gwella deilliannau i'r eithaf ar gyfer disgyblion. Nid oes system glir gan yr ysgol ar gyfer rheoli perfformiad staff. Nid yw pob un o'r athrawon yn cyfrannu'n effeithiol at dargedau perfformiad disgyblion yr ysgol gyfan.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarn i fodloni ychydig o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae wedi cydweithredu â'r awdurdod lleol a'r clwstwr o ysgolion lleol i wella'r asesu mewn rhifedd a llythrennedd ac i wella'r ddarpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, mae safonau yn y Cyfnod Sylfaen a lefelau presenoldeb disgyblion yn parhau yn rhy isel.

Mae'r corff llywodraethol yn ymroddedig a chaiff wybodaeth am waith yr ysgol drwy adroddiadau'r pennaeth ac ymweliadau rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw dealltwriaeth llywodraethwyr o ba mor dda mae'r disgyblion yn cyflawni o gymharu ag ysgolion tebyg eraill wedi'i datblygu digon. O ganlyniad, nid ydynt wedi herio'r ysgol yn drwyadl ynghylch ei safonau nac wedi dwyn arweinwyr i gyfrif yn ddigon da.

Gwella ansawdd: Anfoddhaol

Nid yw gweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol wedi'u datblygu'n ddigonol, ac nid ydynt yn ddigon cynhwysol. Ni wnaeth llawer o'r staff a rhanddeiliaid eraill gyfrannu'n uniongyrchol at gynnwys yr adroddiad hunanarfarnu diweddaraf. Nid oes systemau sicr sydd wedi'u sefydlu'n dda gan yr ysgol ar gyfer adolygu ansawdd addysgu.

Mae trosolwg clir gan yr ysgol o'r meysydd y mae wedi'u nodi ar gyfer eu gwella. Mae cynllun datblygu'r ysgol wedi amlygu meysydd priodol i'w datblygu, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a datblygiad proffesiynol staff. Mae'r cynllun yn dynodi graddfeydd amser, costau, meini prawf llwyddo a rolau unigolion allweddol. Dim ond yn ddiweddar, fodd bynnag, y mae'r trefniadau monitro i arfarnu effaith mentrau wedi'u rhoi ar waith.

Mae staff yn cyfranogi mewn amrywiaeth o fentrau hyfforddi, gan gynnwys gweithio'n agos ag ymgynghorwyr yr awdurdod lleol ac ysgolion lleol eraill. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at safonau gwell mewn Cymraeg, a hefyd wedi helpu gwella rhannu arfer dda rhwng dosbarthiadau.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae safonau disgyblion mewn Cymraeg wedi gwella'n sylweddol. Nid yw lefelau presenoldeb wedi gwella, fodd bynnag, ac er bod yr ysgol wedi rhoi casgliadau o waith disgyblion yn eu lle i arddangos safonau diwedd blwyddyn, mae anghysonderau i'w gweld o hyd yn nealltwriaeth yr athrawon o asesu a lefelu gwaith disgyblion. Nid oes hanes o lwyddo gan yr ysgol o ran sicrhau gwelliant parhaol.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ag ystod o asiantaethau, gan gynnwys yr awdurdod lleol, y gymuned a busnesau lleol. Mae partneriaeth effeithiol gydag uned cyn-ysgol a gaiff ei rhedeg yn annibynnol o fewn yr ysgol. Mae trefniadau priodol ar waith i'r uned ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol. Mae hyn yn hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth werthfawr o ddysgu cyn-ysgol a throsglwyddo i'r dosbarth meithrin. Mae gan yr ysgol bartneriaethau llwyddiannus â rhieni a gofalwyr, ac mae'n rhoi gwybodaeth dda iddynt drwy gylchlythyr yr ysgol, y wefan a negeseuon testun.

Mae'r ysgol wedi gweithio mewn partneriaeth ag ymgynghorwyr arbenigol ac ysgolion eraill i ddyfeisio a chyflwyno cynlluniau addysg unigol arddull newydd ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn wedi gwella'r ddarpariaeth, er ei bod yn rhy gynnar eto i asesu'r effaith ar gyfer disgyblion.

Mae cysylltiadau cadarn â'r ysgol uwchradd leol. Mae cynlluniau pontio trwyadl yn sicrhau'n effeithiol fod disgyblion yn cael eu paratoi ar gyfer addysgu uwchradd. Mae prosesu safoni ar y cyd, a ddatblygwyd mewn partneriaeth, ar gyfer asesiadau diwedd cyfnod allweddol sy'n cynnwys staff o'r clwstwr lleol o ysgolion, yr ysgol uwchradd leol a'r awdurdod lleol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau da â cholegau lleol a chyfleusterau hyfforddi athrawon.

Rheoli adnoddau: Digonol

Mae digon o staff ac adnoddau gan yr ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm. Mae pwyllgor cyllid y llywodraethwyr, a gefnogir yn fedrus gan fwrsar yr ysgol, yn rheoli cyllid yr ysgol yn ofalus, ac mae wedi llwyddo i godi'r ysgol o sefyllfa â diffyg yn ei chyllideb. Mae cynlluniau gwario'r ysgol yn cysylltu'n addas â blaenoriaethau'r ysgol. Er enghraifft, prynwyd cynllun darllen ysgol newydd yn ystod y flwyddyn ysgol hon. Mae'r ysgol yn rheoli ei hadeiladau a'i hadnoddau yn briodol.

Er y cafwyd gwelliannau mewn safonau yng nghyfnod allweddol 2, nid yw'r ysgol yn gyffredinol wedi llwyddo i sicrhau gwelliant parhaus dros y pedair blynedd diwethaf. Nid oes system effeithiol i reoli perfformiad staff addysgu.

O ystyried y safonau a gyflawnir a'r cynnydd da sy'n cael ei wneud gan lawer o ddisgyblion erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Yn 2012, mae perfformiad disgyblion o ran dangosydd deilliannau'r Cyfnod Sylfaen (y lefel ddisgwyliedig mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol) islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu. Mae perfformiad yn fwy cymysg yn y meysydd dysgu unigol ar y lefel ddisgwyliedig (deilliant 5) ac uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig (deilliant 6). Mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu ac mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol, mae perfformiad y disgyblion yn unol â chyfartaledd y teulu ar y lefelau disgwyliedig. Mae datblygiad mathemategol yn wannach ac yn is na'r cyfartaledd. O ran deilliant 6, ym mhob un o'r meysydd dysgu hyn, mae perfformiad disgyblion islaw cyfartaledd y teulu.

Yn 2012, o gymharu â chanlyniadau disgyblion mewn ysgolion â chyfran debyg o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae canlyniadau'r disgyblion ym mhob maes dysgu'r Cyfnod Sylfaen yn y 50% is ond nid yn y 25% isaf. Mae canlyniadau'r disgyblion uwchlaw'r lefel ddisgwyliedig mewn datblygiad mathemategol yn y 50% is ond nid yn y 25% isaf. Fodd bynnag, mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu ac mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol, mae perfformiad disgyblion ar y lefel uwch yn y 50% uchaf ond nid yn y 25% uchaf. Fe wnaeth bechgyn gyflawni'n well na merched ar y lefel ddisgwyliedig, ond roedd perfformiad yn debyg ar y lefel uwch.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae cyrhaeddiad disgyblion yn y dangosydd pwnc craidd (y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) wedi codi yn y tair blynedd diwethaf, ac yn 2012 roedd uwchlaw cyfartaledd y teulu, y cyfartaledd lleol a'r cyfartaledd cenedlaethol. Ac eithrio 2010, pan wnaeth perfformiad ostwng, mae deilliannau'r disgyblion mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn well yn gyffredinol neu'n gyfartal â chyfartaledd y teulu a chyfartaleddau eraill dros y pedair blynedd diwethaf.

Yn y pedair blynedd diwethaf, o gymharu â pherfformiad ysgolion mewn amgylchiadau tebyg, ac eithrio gostyngiad yn 2010, roedd yr ysgol yn y 50% uwch ond nid yn y 25% uchaf ar gyfer y dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2. Mae perfformiad ym mhob un o'r pynciau unigol yn fwy amrywiol, ac mewn Saesneg mae'r ysgol yn gyffredinol yn y 50% is ond nid yn y 25% isaf. Mae safleoedd mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn anghyson o flwyddyn i flwyddyn, ac roedd yr ysgol yn y 50% is ond nid yn y 25% isaf yn 2012.

Nid yw perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch (lefel 5) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn cymharu'n dda yn gyffredinol â pherfformiad ysgolion tebyg eraill.

Yn y pedair blynedd diwethaf yn gyffredinol, fe wnaeth merched berfformio'n well na bechgyn. Mae hyn yn debyg i'r sefyllfa mewn ysgolion eraill yn y teulu. Fodd bynnag, mae perfformiad bechgyn yn amrywio, ac yn 2012, fe wnaethant gyflawni uwchlaw cyfartaleddau'r teulu.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Fe wnaeth 32 o rieni lenwi'r holiadur.

Teimla bron pob un o'r rhieni fod eu plant yn hoffi'r ysgol, eu bod yn ddiogel yno a bod disgwyl iddynt weithio'n galed a gwneud eu gorau, a'u bod wedi cael cymorth i ymgartrefu'n dda pan wnaethant ddechrau yn yr ysgol.

Cred y rhan fwyaf o'r rhieni fod eu plant:

- yn cael eu hannog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff rheolaidd;
- yn cael cymorth i aeddfedu a bod yn gyfrifol; a hefyd
- bod yr addysgu yn dda, a bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mewn mwyafrif o gwestiynau roedd barnau rhieni yn Ysgol Gynradd Alltwen gryn dipyn yn llai cadarnhaol na barnau rhieni mewn ysgolion tebyg ledled Cymru. Roedd y gwahaniaethau mwyaf amlwg yn ymwneud â pha mor dda y teimla'r rhieni fod yr ysgol yn rhoi gwybod iddynt am gynnydd eu plant, a pha mor dda y teimlant fod y plant yn cael cymorth mewn perthynas ag anghenion penodol.

Roedd gan leiafrif o rieni bryderon ynghylch:

- pa mor dda yw amrywiaeth y gweithgareddau, y teithiau ac ymweliadau a ddarperir;
- gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer delio â chwynion;
- a yw gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn a ddysgir yn yr ysgol; a
- pha mor dda y cafodd eu plentyn ei baratoi/pharatoi ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf.

Roedd gan ychydig o rieni bryderon ynghylch:

- mynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblemau;
- y cynnydd y mae eu plentyn yn ei wneud; a
- pa mor dda mae'r disgyblion yn ymddwyn.

Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Fe wnaeth 128 o ddisgyblion o gyfnod allweddol 2 lenwi'r holiadur.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac o'r farn fod yr ysgol yn eu haddysgu i gadw'n iach. Teimla'r rhan fwyaf ohonynt eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol; maent yn gwybod pwy i ofyn iddynt os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd ac yn gwybod â phwy i siarad os ydynt yn pryderu. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod yr athrawon ac oedolion eraill yn eu hysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.

Mae ychydig o ddisgyblion yn teimlo nad yw'r gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith, ac maent yn anghytuno eu bod yn cael digon o gyfleoedd i wneud ymarfer corff rheolaidd neu fod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron.

Roedd barnau disgyblion yn Alltwn gryn dipyn yn llai cadarnhaol na barnau disgyblion eraill mewn ysgolion ledled Cymru. Roedd y disgyblion yn llawer mwy negyddol ynghylch pa mor dda mae'r ysgol yn delio ag unrhyw fwlio, ac ymddygiad ychydig o ddisgyblion amser chwarae ac amser cinio.

Dywed tua hanner y disgyblion nad yw plant eraill yn ymddwyn yn dda, a'u bod weithiau yn eu hatal rhag gwneud eu gwaith dosbarth.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Gregory Owens	Arolygydd Cofnodol
Enir Morgan	Arolygydd Tîm
Ivor Petherick	Arolygydd Lleyg
Karen Olds	Arolygydd Cymheiriaid
Sarah Harwood	Enwebai'r Ysgol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeiliant 1 i ddeiliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deiliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deiliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deiliant disgwylidig (deiliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.